

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

SWYDD DISGRIFIAD

Gweithiwr Allweddol a threfnydd Clwb Pobl ifanc LGBT GISDA

GYFRIFOL I:	Arweinydd Tim Prosiectau
LLEOLIAD:	Gwynedd
CYFLOG:	Pwynt 17 – 22 £17,506 - £20,411 pro rata
ORIAU:	22.5 Awr yr wythnos
CONTRACT:	Ebrill 1af 2019 – 31ain o Fawrth 2020

Pwrpas y Swydd

1. Trefnu rhaglen ar gyfer Clwb Ieuenctid LGBT Gwynedd
2. Sicrhau gofod i bobl ifanc gael cwrdd a chymdeithasu gyda'u gilydd.
3. Cefnogi pobl ifanc LGBT i ddatblygu sgiliau byw yn annibynnol
4. Codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl ifanc gyda'r cyhoedd, ysgolion a gwasanaethau eraill

PRIF DDYLETSWYDDAU

- ✓ Trefnu calendr blwyddyn o weithgareddau ar gyfer y grŵp
- ✓ Bod yn bwynt cyswllt i annog pobl ifanc fynychu a hyrwyddo'r clwb
- ✓ Creu cysylltiadau gyda mudiadau LHDT eraill o fewn Cymru a thu hwnt
- ✓ Gweithio fel gweinyddwr i'r clwb LHDT gan sicrhau cydweithio agos gyda'r gwirfoddolwyr sydd yn cynnal y clwb
- ✓ Trefnu i brynu unrhyw adnoddau neu ddeunyddiau mae'r clwb eu hangen.
- ✓ Paratoi deunyddiau addas i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael mewn gwahanol fannau o fewn Gwynedd
- ✓ Cyfrifoldeb dros y rhan LHDT o wybodaeth ar wefan GISDA a sicrhau bod yna wybodaeth ar le i gael cefnogaeth pellach petai angen
- ✓ Darparu gwybodaeth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ar le i fynd i gael gwybodaeth a chefnogaeth
- ✓ Hyrwyddo ac annog mudiadau a chyrrff eraill i fod yn fwy parod i ddangos eu cefnogaeth a'u dealltwriaeth o faterion sydd yn effeithio pobl ifanc LHDT

- ✓ Edrych am gyllid i ehangu'r ddarpariaeth yn arbennig tuag at diwedd y cynllun
- ✓ Hyrwyddo'r Clwb ymysg gwahanol asiantaethau
- ✓ Edrych ar annog gwirfoddolwyr i ddatblygu clwb tebyg mewn rhannau eraill o Wynedd.
- ✓ Sicrhau bod llais y bobl ifanc yn ganolog i unrhyw ddarpariaeth a ddarperir
- ✓ Codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl ifanc gyda'r cyhoedd, ysgolion a gwasanaethau eraill
- ✓ Cydweithio gyda cydlynnydd gwirfoddoli GISDA i annog mwy o wirfoddolwyr
- ✓ I weithio o fewn fframwaith PIE, yn unol a model therapiwtig GISDA.
- ✓ Staff i gael dealltwriaeth o drama, ymlyniad a anhwylder personoliaeth.
- ✓ I adeiladu perthynas gref, iach ,a chyfeillgar gyda pobl ifanc gan roi y cyfle iddynt ymgysylltu/ a mynegi ei hunain mewn awyrgylch ffurfiol ac anffurfiol.
- ✓ I greu awyrgylch di sefydliad, saff a chroesawgar sydd yn rhoi y cyfle i bobl ifanc drafod a mynegi ei teimladau /pryderon.
- ✓ I hyrwyddo ac annog pobl ifanc i ofalu am lles ei hunain a bod yn fwy annibynnol.
- ✓ I annog, ysgogi a credu mewn pobl ifanc .
- ✓ Ymddwyn fel rôl model i bobl ifanc gan ddangos ffyrdd 'pro social' o ddelio a phroblemau.
- ✓ Sefydlu perthnasau positif gyda pobl ifanc a chynnig agwedd gadarnhaol ddiamod.
- ✓ Monitro llwyddiant a deilliannau pobl ifanc a gweithio ar gynllun clir i symud ymlaen gyda'r person ifanc.
- ✓ Adnabod ac ymateb i anghenion cefnogaeth defnyddwyr ein gwasanaeth/teuluoedd.
- ✓ Cyfrannu tuag at gefnogaeth ac anghenion datblygiadol holl ddefnyddwyr gwasanaeth drwy weithio mewn Partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- ✓ Cwblhau holiadur siwrne cefnogaeth a Tracio pobl ifanc ar ôl iddynt adael y gwasanaeth.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyfrannu tuag at eich datblygiad personol a hyfforddiant
- Cyfrannu tuag at sesiynau goruchwyllo a gwerthusiad blynyddol.
- Hyrwyddo dulliau cyfeillgar, gan beidio barnu na gwahaniaethu ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, cydweithiwr, Bwrdd Rheoli a'r cyhoedd/mudiadau eraill.
- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol GISDA
- Hyrwyddo'r Ganolfan Hyfforddiant a gwerthoedd ac amcanion GISDA
- Cefnogi a gweithio gyda gwirfoddolwyr GISDA
- Sicrhau ein bod yn cadw at bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol GISDA
- Cadw at brotocol Amddiffyn Plant GISDA
- Cadw pob gwybodaeth am staff a defnyddwyr gwasanaeth yn gyfrinachol, yn unol â deddf diogelu data a pholisi cyfrinachedd y cwmni.
- Cynnal pob dyletswydd/cyfrifoldeb a chadw at gòd ymarfer Cyngor Gofal Cymru.
- Gwneud unrhyw ddyletswydd resymol pan yn ofynnol.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol ac mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau.

Disgwylir i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau; pan fo raid iddynt newid y tu fewn i'r gyfundrefn er mwyn cwrdd â gofynion ac anghenion y gwasanaeth.

MANYLION PERSON

Gweithiwr Allweddol a threfnydd Clwb Pobl ifanc LGBT GISDA

HANFODOL o ran Profiad
Profiad o weithio gyda phobl ifanc bregus
Diddordeb ac angerdd mewn materion sydd yn effeithio pobl ifanc LGBT
Trefnus
Profiad o cynnal sesiynau hyfforddi i bobl ifanc/gwirfoddolwyr
Parodrwydd i weithio oriau hyblyg
Sgiliau gweinyddu
Gallu dreifio ac yn berchen car
Sgiliau
Empathetig a dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc LHDT
Y gallu i gyfathrebu yn effeithio mewn amrywiol sefyllfaoedd a gallu i ymdopi yn effeithiol gyda chwynion
Gweithio mewn grwpiau a sgiliau hwyluso
Defnyddio meddalwedd fel Word, Excel, Outlook a Power Point
Y gallu i greu cysylltiadau gyda mudiadau allanol
Y gallu i gynrychioli'r cwmni
Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg (yn llafar ac yn ysgrifenedig)
Amyneddgar
Rheoli Amser
Y gallu weithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm
DYMUNOL
Profiadau
Siarad yn gyhoeddus ar rai achosion i hyrwyddo'r gwasanaeth
Gallu i werthu'r gwasanaeth i amrywiol gynulleidfaoedd
Hyrwyddo, marchnata a datblygu gwasanaeth
Datblygu a monitro systemau a phrosiectau
Diddordeb mewn gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc LGBT
Sgiliau
Ymchwilio i gadw fyny gyda deddfwriaeth neu unrhyw weithdrefnau newydd
Rheoli Cyllideb bychan